

Marchnadoeddsir y Flint

Datblygu'r Dyfodol

Crynodeb Gweithredol

Awst 2010



Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2010 comisiynodd Cyngor Sir y Fflint New Markets Solutions – mewn partneriaeth â PM Regeneration – i asesu ac i lywio dyfodol marchnadoedd presennol a marchnadoedd posibl y sir.

1.2 Mae'r tîm ymgynghori wedi cynnal gwaith ymchwil eang yn lleol drwy ymgynghori â siopwyr, masnachwyr marchnadoedd a manwerthwyr lleol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori â rhanddeiliaid (cynrychiolwyr marchnad y ffermwyr, rheolwyr canol trefi, cynrychiolwyr partneriaethau trefi a swyddogion allweddol y Cyngor, gan gynnwys rheolwyr marchnadoedd).

Ymwelwyd â phob marchnad a chafodd y Cyngor weld yr holl ddogfennau ariannol a'r dogfennau'n ymwneud â rheoli.

1.3 Mae gwahanol randdeiliaid yn gweld marchnadoedd o safbwyntiau gwahanol. Felly, ceir barn arbenigol cyffredinol yn ogystal â barn grwpiau sy'n cyflwyno ffactorau negyddol a chadarnhaol. Mae gan yr ymgynghorwyr brofiad a gwybodaeth bersonol ac arbenigol am y diwydiant marchnadoedd a manteisir ar hyn wrth gloriannu sefyllfa'r marchnadoedd lleol yn Sir y Fflint, gan gymharu'r sefyllfa hefyd â'r sefyllfa genedlaethol.

1.4 Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys dros 120 o dudalennau ac mae tair rhan iddo. Mae Rhan 1 yn cynnwys y brif wybodaeth gyd-destunol, y gwaith dadansoddi a wnaed am bob marchnad/tref ac argymhellion yr ymchwil. Rhan allweddol o'r astudiaeth hon oedd ystyried sut y mae'r rheini sydd ynghlwm wrth farchnadoedd awdurdodau lleol eraill yn delio â'r un problemau sy'n wynebu Sir y Fflint. Mae nifer o astudiaethau achos, felly, wedi'u cynnwys yn Rhan 2 o'r adroddiad llawn er mwyn rhoi darlun o'r diwydiant marchnadoedd cenedlaethol a gwell dealltwriaeth o sefyllfa marchnadoedd yn Sir y Fflint. Mae Rhan 3 o'r adroddiad llawn yn cynnwys manylion yr ymgynghoriad eang a gynhaliwyd â'r cyhoedd, manwerthwyr a masnachwyr marchnad – ynghyd â rhagor o wybodaeth am roi rhai argymhellion penodol ar waith.

1.5 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at dwf canolfannau siopa y tu allan i drefi ac ar gyrion trefi dros yr ugain mlynedd diwethaf, a'u heffaith andwyol ar ganol trefi, gyda'r prif archfarchnadoedd yn arbennig yn denu siopwyr o ganol y trefi i a fu gynt yn ardaloedd mor brysur. Mae masnachwyr bach, p'un a'i perchnogion siopau bach neu fasnachwyr marchnad, yn ei chael yn anodd iawn cystadlu os nad oes pobl yn mynd heibio i weld eu hymdrechion i ennyn eu diddordeb yn eu cynnyrch a'u nwyddau. Caiff pobl eu denu'n naturiol at bethau newydd, pethau llachar a sgleiniog, nwyddau sydd wedi'u cyflwyno'n broffesiynol, cyfleusterau parcio hwylus a chynhesrwydd clyd yr archfarchnadoedd a'r canolfannau siopa. Mae busnesau mawr yn broffesiynol iawn yn y modd y maent yn ymgynghori at eu nod o reoli'r farchnad manwerthu ar draul busnesau bach.

1.6 Mae ardaloedd siopa'r rhan fwyaf o drefi marchnad Sir y Fflint wedi dioddef fel y rhan fwyaf o ganol trefi ledled Cymru a Lloegr. Maent wedi colli'u bwrlwm, mae llawer o'r siopau'n wag ac mae eu marchnadoedd traddodiadol wedi crebachu'n sylweddol. Gwelwyd agweddau ar seilwaith canol trefi'n dirywio wedi i atyniadau siopa eraill gipio'r busnes a oedd mor hanfodol iddynt.

1.7 Mae hyn yn arbennig o wir yn achos marchnadoedd a chanol trefi Cei Connah, y Fflint a Threffynnon. Mae manwerthu traddodiadol yn y tair tref wedi dioddef oherwydd yr holl archfarchnadoedd a'r parciau siopa sydd wedi codi mewn lleoliadau ymhell o'r strydoedd siopa traddodiadol. Roedd gan y tair tref farchnadoedd agored da iawn cyn i'w cwsmeriaid gael eu denu oddi wrthynt. Arferai dros 100 o stondinwyr ddod i farchnad Cei Connah ond, erbyn hyn, dim ond pedwar masnachwr sy'n dod i gynnig gwasanaeth bach ond defnyddiol i rai o'r bobl leol nad ydynt yn defnyddio cerbydau i fynd i siopa. Roedd gan y Fflint, hefyd, farchnad boblogaidd ond dim ond un stondin sydd i'w gweld yno'n awr ac, fel marchnad dydd Sul Treffynnon, nid yw'n bodoli erbyn hyn fel marchnad. Mae'r farchnad dydd Iau yn Nhreffynnon yn parhau, ond mae'n llawer iawn llai nag yr oedd ac nid yw'n denu fawr o neb heblaw rhai pobl leol. Gan hynny, does gan fasnachwyr marchnad fawr o ddiddordeb chwaith.

1.8 Yr Wyddgrug yw'r eithriad. Mae'r bwrlwm a'r bywyd ym marchnadoedd yr Wyddgrug yn parhau. Gellir priodoli hyn yn bennaf i amgylchiadau daearyddol ac amgylchedd canol tref sy'n ffafrio'r farchnad agored a'r farchnad dan do. Mae'r bwrlwm yn parhau i ddenu nid yn unig bobl leol ond hefyd pobl o ardaloedd eraill y sir ac ymwelwyr o bell. Mae'r Wyddgrug yn parhau i fod yn dref marchnad fywiog ac mae'n gaffaeliad mawr i'r sir. Ond bydd angen cymryd camau i sicrhau bod hynny'n parhau. Mae ffactorau cystadleuol cynyddol yn y byd manwerthu sy'n parhau i fygwth hyd yn oed trefi llwyddiannus - a marchnadoedd llwyddiannus. Dengys gwaith ymchwil bod holl grwpiau rhanddeiliaid yn Sir y Fflint yn y bôn, yn cydnabod pwysigrwydd y marchnadoedd ac yn gefnogol iddynt ond bod angen eu gwella o ran safon a maint

1.9 Mae'r adroddiad yn awgrymu sut y gellir cynnal bwrlwm marchnadoedd - ac nid dim ond o ran canol tref yr Wyddgrug ond hefyd canol trefi Cei Connah, y Fflint a Threffynnon - drwy annog y Cyngor i gymryd camau uniongyrchol ac anuniongyrchol a drwy annog y gymuned leol i gymryd rhan a'u cefnogi gan greu cyfuniad o stondinau atyniadol i bobl leol, i bobl eraill yn y sir ac i dwristiaid ac ymwelwyr hamdden. Cafwyd awgrymiadau'n ymwneud â dulliau gweithredu, systemau marchnata, gofynion cynllunio a dylunio a chyflwyno digwyddiadau marchnata. Mae'r adroddiad yn ymwneud â chynnal a datblygu gwasanaeth y marchnadoedd i roi hwb i ganol trefi Sir y Fflint, ac mae hefyd yn asesu pa farchnadoedd sydd, mewn gwirionedd, yn cyfrannu at fywiogrwydd canol y trefi, pa farchnadoedd all wneud hynny (gyda chymorth) a pha farchnadoedd na allant wneud hynny.

Adran 2 - Crynodeb o'r Dadansoddiad

Marchnadoedd Sir y Fflint – Trosolwg

2.1 Mae gan Gyngor Sir y Fflint drefi marchnad yng Nghei Connah, Treffynnon a'r Wyddgrug. Does dim traddodiad o gynnal marchnadoedd yng nghanol y prif drefi eraill, sef Bwcle, Queensferry a Shotton, er bod marchnadoedd wedi'u treialu yn y gorffennol ym Mwcle. Yn wahanol i lawer o drefi marchnad mewn ardaloedd eraill, yn hanesyddol, does dim seilwaith parhaol o stondinau marchnad agored yn nhrefi Sir y Fflint na stondinau y gellir eu datgysylltu ac a ddarperir gan yr awdurdod marchnadoedd. Mae hyn yn arwyddocaol o safbwynt y posibiladau yn y dyfodol a hefyd o ran y modd y caiff marchnadoedd agored Sir y Fflint eu gosod.

Yr Wyddgrug

2.2 Mae'r Wyddgrug yn dal yn bodloni llawer o'r meini prawf ar gyfer tref farchnad enghreifftiol. Mae marchnadoedd yr Wyddgrug yn fach, yn amrywiol ac yn effeithiol. Maent yn cynnwys marchnad dan do fechan drwy'r wythnos, marchnad awyr agored ar ddydd Mercher a dydd Sadwrn, marchnad ffermwyr a gynhelir unwaith y mis ac arwerthiant cist car a gynhelir bob dydd Sul.

2.3 Mae'r rhai sy'n masnachu yn y marchnadoedd yn bobl â chryn brofiad; amcangyfrifir bod dros 90 o fusnesau ym marchnadoedd dan do ac awyr agored yr Wyddgrug. Fodd bynnag - mae'n amgylchedd masnachu hynod gystadleuol - mae modd cyflwyno nifer o newidiadau i sicrhau cynaliadwyedd ac i roi hwb i'r marchnadoedd. Mae modd gwella'r ffordd y mae'r stondinau'n cael eu gosod a chryfhau'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae angen marchnata er mwyn cynnal safon a chynyddu nifer y standinwyr ac i sicrhau bod gan y cwsmeriaid ddigon o ddiddordeb i sicrhau cynaliadwyedd. Mae modd gwella hygyrchedd, safon dylunio a'r modd y caiff y marchnadoedd eu cyflwyno a chynigir camau i'r masnachwyr a'r Cyngor eu cymryd i gyflawni hyn.

Treffynnon

2.4 Mae problem wirioneddol yn Nhrefynnon gan nad oes amgylchedd manwerthu cryf ar yr Heol Fawr ond byddai gan fuddsoddwyr fwy o hyder mewn manwerthu yng nghanol y dref pa gellid buddsoddi yn y farchnad a gynhelir yno ar ddydd lau a chynnal digwyddiadau arbennig i hyrwyddo siopau canol y dref.

2.5 Dim ond ar ddydd lau y cynhelir marchnad Treffynnon yn awr; mae nifer fechan y masnachwyr marchnad a'u cyflwyniadau'n adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y siopwyr sy'n mynd heibio ar hyn o bryd yn y dref hon sydd â phensaernïaeth atyniadol. I gynyddu maint ac ansawdd y farchnad, bydd angen rhoi nifer o fesurau ar waith ond mae angen ystyried mabwysiadu cynllun penodol i wella'r farchnad hon gan gynnwys, o bosibl, ei hail-lansio a threfnu digwyddiadau hyrwyddo.

Y Fflint

2.6 Mae diffyg cydlyniad yn yr hyn sydd gan y Fflint i'w gynnig ym maes manwerthu. I'r rhai sy'n ymweld â'r dref am y tro cyntaf o gyfeiriad y dwyrain, canol traddodiadol Heol yr Eglwys yw'r ardal amlycaf o ran siopau, ac ymddengys mai Sainsburys a'r parc manwerthu cyfagos yw canol tref y Fflint i'r rhai sy'n teithio o'r gorllewin.

2.7 Nid yw'r farchnad a gynhaliwyd ar ddydd Gwener yn y Fflint yn bod bellach, i bob pwrpas, gan mai dim ond un stondin sy'n dod i ardal draddodiadol y farchnad, sydd mewn lleoliad gwael. Ystyrir, fodd bynnag, y byddai'r dref yn elwa o adfywio'r farchnad a'i chynnal mewn lleoliad a allai ddenu cwsmeriaid a masnachwyr. Heol yr Eglwys fyddai'n cynnig y lleoliad gorau ond ystyrir lleoliadau eraill yn yr adroddiad hwn hefyd ac, os bydd digon o adnoddau ar gael, awgrymir y dylid ceisio ail-lansio'r farchnad yn y dyfodol.

Cei Connah

2.8 Mewn gwirionedd, gellid dweud mai'r dref agosaf, sef, Shotton, yw Stryd Fawr draddodiadol Cei Connah. Yng Nghei Connah ei hun, mae casgliad mwy sylfaenol o fanwerthwyr ac er bod rhai mentrau mwy wedi'u lleoli yno, mae angen delio â nifer o broblemau'n ymwneud â'r seilwaith a golwg y dref.

2.9 Mae'r farchnad a fyddai'n cael ei chynnal yng Nghei Connah ar ddydd lau wedi lleihau'n arw dros y blynyddoedd ac mae'n awr yn cynnig atyniad gwael, ond buddiol. Mae'n bosibl y gellid ei symud yn y tymor byr, ond os yw am gael ei ddatblygu yn yr hirdymor mae angen cynllun datblygu. Un syniad ar gyfer cynllun o'r math hwn yn y dyfodol yw datblygu canolbwynt gweithgareddau newydd a fyddai'n denu mwy o ddarpar siopwyr mewn lleoliad marchnad mwy naturiol a allai gynnwys marchnad mwy amrwyiol a safonol a fyddai'n fwy tebygol o lwyddo na'r farchnad hynod gyfyngedig bresennol.

Bwcle, Shotton a Queensferry

2.10 Mae tair prif dref arall Sir y Fflint, sef Bwcle, Shotton a Queensferry, wedi'u hasesu i weld a ellid cynnal marchnadoedd ynddynt. Fel y nodwyd uchod, mae Shotton, ar y cyd â Chei Connah, yn gweithredu i bob pwrpas fel un canolbwynt manwerthu ac mae'n amlwg na fyddai'n ymarferol cyflwyno marchnad arall mewn lleoliad mor agos. Yn yr un modd, byddai'n anymarferol cynnal marchnad yn Queensferry, gan y byddai'n cystadlu â Chei Connah. Mae angen i'r tair canolfan gydweithredu'n fasnachol, i hyrwyddo Glannau Dyfrdwy fel ardal fanwerthu - ac mae un farchnad sy'n cynrychioli Glannau Dyfrdwy gyfan yn ddigon ar hyn o bryd.

2.11 Mae Bwcle yn ddigon o faint o safbwynt manwerthu ac mae'n elwa o'i lleoliad strategol hygyrch. Mae canol y dref wedi elwa hefyd o'r buddsoddiad amlwg a wnaed i wella eiddo cyhoeddus a phalmentydd. Treialwyd marchnad yn y dref yn y gorffennol ond byddai'n well trefnu digwyddiadau arbenigol unigol ar ddiwrnod pan nad oes marchnad yn yr Wyddgrug.

Digwyddiadau Marchnad Arbenigol

2.12 Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys adran sy'n ymdrin â'r posibilrwydd o gydgyssylltu digwyddiadau marchnad arbenigol - rhai masnachol a rhai cymunedol - fel rhan o strategaeth farchnata i gynnal ac i hybu'r bwrlwm yng nghanol trefi Sir y Fflint a'u gwneud

yn fwy hyfyw. Rhoddir enghreifftiau o ddigwyddiadau o'r fath sy'n cael eu cynnal yn rhannau eraill o'r sir, ac awgrymir y gallai rheolwyr marchnadoedd gadw cyflenwad o stondinau atyniadol i ennyn diddordeb cymunedau yn ogystal â chefnogi cyflwyniadau marchnad eraill.

Datblygu marchnadoedd Sir y Fflint drwy ddulliau cynhwysfawr.

2.13 Yn yr adroddiad, ceir pymtheg o argymhellion sy'n cyfuno ffactorau strategol, tactegol a gweithredol. Mae rhai'n berthnasol i'r sir gyfan, ac eraill yn berthnasol i farchnadoedd penodol, ond mae'r argymhelliad olaf yn awgrymu bod y Cyngor yn datblygu strategaeth marchnadoedd a fydd yn dwyn yr holl argymhellion at ei gilydd i greu dyfodol mwy cynaliadwy i farchnadoedd y sir.

Adran 3 - Crynodeb o'r Argymhellion

3.1. Mae angen adolygu cynllun - a hygyrchedd - yr holl farchnadoedd agored yn rheolaidd, yn enwedig o ystyried bod presenoldeb masnachwyr yn amrywio. **Gweithredol**

3.2. I sicrhau bod holl farchnadoedd yr Wyddgrug yn fwy hyfyw, dylid symud marchnad y ffermwyr yn agosach at y marchnadoedd dan do ac awyr agored.

Strategol/Tactegol

3.3. Mae angen strategaeth "Marchnata'r Marchnadoedd" a chynlluniau marchnata blynyddol i gynnal ac i adeiladu ar nifer y masnachwyr sy'n dod i'r marchnadoedd, a hynny drwy gyfrwng grantiau a/neu ail-fuddsoddi elw o'r marchnadoedd. **Strategol / Tactegol**

3.4. Dylid sefydlu Grŵp Marchnata Rhanddeiliaid Marchnadoedd a Chanol Trefi a fydd yn cysylltu masnachwyr marchnad o bob marchnad, perchnogion siopau, rheolwyr canol trefi a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn gweithio mewn partneriaeth i wella'r strategaeth farchnata a gweithredu yn yr holl drefi marchnad. **Strategol/Tactegol**

3.5. Hyfforddi masnachwyr marchnad hen a newydd i'w helpu i barhau i fasnachu ac i sicrhau bod yr holl farchnadoedd yn fwy hyfyw.

Tactegol/Gweithredol

3.6. Dylid cynnig cymhellion penodol i annog masnachwyr yn yr holl farchnadoedd i gyflwyno'u stondinau a'u nwyddau'n fwy proffesiynol yn y trefi marchnad.

Tactegol/Gweithredol

3.7. Dylai uned marchnadoedd Sir y Fflint gadw cyflenwad o stondinau hwylus i'w defnyddio i ddatblygu digwyddiadau marchnad a chymuned ym mhob tref, gan gynnwys annog masnachwyr hen a newydd ym mhob marchnad i gyflwyno'u stondinau'n dda ac i sicrhau bod marchnata'n hyfyw..

Strategol/Tactegol/Gweithredol

3.8. Dylid annog cynllunydd siopau proffesiynol i gynllunio a phrisio cynllun i ailwampio marchnad dan do'r Wyddgrug mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr marchnadoedd a grŵp o ddefnyddwyr marchnadoedd. **Strategol**

3.9. Pan fydd staff, seilwaith ac adnoddau marchnad wedi'u trefnu, dylid ystyried cynllun i wella marchnad Treffynnon er mwyn ail-lansio'r farchnad a gynhelir yno bob dydd lau.

Tactegol / Gweithredol

3.10. Pan fydd staff, seilwaith ac adnoddau marchnad wedi'u trefnu, dylid ystyried adfywio marchnad dydd Gwener yn y Fflint mewn lleoliad a fydd yn caniatáu i fasnachwyr fasnachu'n llwyddiannus.

Strategol/Tactegol

3.11. Dylai'r Cyngor sicrhau bod statws Cei Connah fel tref farchnad yn cael ei ddiogelu a'i wella yn y tymor byr (cyn creu'r Prif Gynllun), gan archwilio'r holl fesurau dros dro i ennyn diddordeb masnachwyr.

Tactegol / Gweithredol

3.12. Dylai'r Prif Gynllun ar gyfer Cei Connah a Shotton, ymhlith pethau eraill, ystyried sut y gellir gwneud newidiadau strwythurol priodol i hwyluso ac i gynnwys cynllun i ail-lansio gweithgareddau marchnadoedd o safon.

Strategol

3.13 Mae angen ad-drefnu'r sefydliad staffio marchnadoedd a'r cyfleusterau swyddfa er mwyn i staff fedru delio'n effeithiol ac yn effeithlon â gweithredu a datblygu marchnadoedd.

Tactegol/Gweithredol

3.14. Dylid ystyried datblygu cyfres o farchnadoedd arbenigol fel rhan allweddol o raglen ddigwyddiadau ledled y sir – gan gynnwys holl drefi Sir y Fflint os oes modd – fel rhan o'r cynllun adfywio. **Strategol/Tactegol/Gweithredol**

3.15 Datblygu Strategaeth Marchnata Sir y Fflint a fydd yn cydnabod y manteision y gall marchnadoedd eu cynnig i'r gymuned ac a fydd yn nodi ac yn cynllunio'r camau cynhwysfawr sydd eu hangen i sicrhau bod y marchnadoedd yn cael eu cynnal a'u datblygu yn y dyfodol. **Strategol**

Sylwch: At ddibenion yr adroddiad hwn, rhennir yr argymhellion fel a ganlyn:

Strategol (cyfnod o rhwng un a phum mlynedd) , **Tactegol** (hyd at flwyddyn/lefel uwch reoli) a **Gweithredol** (o'r naill wythnos i'r llall/lefel rheoli marchnadoedd). Sylwer bod rhai o'r argymhellion yn perthyn i fwy nag un categori.